



**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF
CABINET - PARC COFFA YNYSANGHARAD**

Cofnodion o gyfarfod y Cabinet - Parc Coffa Ynysangharad a gynhaliwyd Dydd Mawrth, 4 Rhagfyr 2018 am 11.00 am ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypany, CF40 2XX.

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Cabinet - Parc Coffa Ynysangharad Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cyngorydd M Webber (Cadeirydd)

Y Cyngorydd A Crimmings Y Cyngorydd S Powderhill

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr D Batten, Pennaeth Materion Hamdden, Parciau a Chefn Gwlad

Ms J Edwards

Ms S Mee

Ms M Gibbs

6 YMDDIHEURIAD

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol L De Vet

7 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

8 COFNODION

PENDERFYNODD y Cabinet gymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mehefin 2018 yn rhai cywir.

9 PARC COFFA YNYSANGHARAD - RHAGLEN PARCIAU I BOBL CRONFA DREFTAETH Y LOTERI

Derbyniodd yr ymddiriedolwyr Ms C Hayden, Swyddog Partneriaeth yr Amgylchedd (TEPS - The Environment Partnership) i'r cyfarfod. Aeth y swyddog ati i roi i Aelodau'r dyluniadau diwygiedig a oedd wedi'u llunio gan TEPS a'r penseiri AJA mewn perthynas â chynigion dylunio cam 3 Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain ar gyfer y Ganolfan Arddwriaethol. Dywedodd y swyddog fod y dyluniadau wedi'u diwygio i sicrhau eu bod yn gydnaws â'r amgylchedd a llinell goed y Parc a chafodd Aelodau wybod hefyd am y boeler ynni adnewyddadwy o

fewn y dyluniadau.

Trafododd yr Aelodau y dyluniadau cyn iddyn nhw roi sylw penodol i'r elfennau allweddol ar y bwrdd syniadau ar gyfer y ganolfan hyfforddi garddwriaethol gan roi sylwadau ar y brics lleol a oedd wedi'u hawgrymu a'r cladin pren fertigol wedi'i staenio. Awgrymodd yr Aelodau y byddai brics llwyd yn fwy cydnaws â'r gymuned leol ac y dylid goleuo'r pren. Hefyd, gwnaeth Aelodau sylwadau ar y gwaith cynnal a chadw y byddai ei angen gyda'r deunyddiau dylunio arfaethedig. Nododd y Cadeirydd fod y dyluniadau yn destun ymgynghoriad cyhoeddus a soniodd am bwysigrwydd gwrandio ar y cyhoedd mewn perthynas â'u barn ar y dyluniadau. Gofynnodd Aelodau hefyd am hyfywedd hirdymor y system ynni adnewyddadwy a chadarnhaodd y swyddogion fod hyn yn fath gynaliadwy o ynni ar gyfer y ganolfan.

Dywedodd y Swyddog Adfywio a Chynllunio wrth Aelodau fod y dyluniadau diweddaraf wedi arwain at gynnydd yng nghost wreiddiol y prosiect cyfan, ac mae Cronfa Treftadaeth y Loteri wedi cadarnhau nad oes modd cynyddu'r cais grant gwreiddiol a gyflwynwyd i'w gymeradwyo yng ngham 1. Parhaodd y Swyddog drwy nodi bod ffynonellau cyllido amgen yn cael eu harchwilio'n weithredol.

Gwnaeth Aelodau sylwadau cadarnhaol ar y rhaglen a'r gwelliannau y byddai'n eu cyflwyno i'r Parc er budd trigolion y Fwrdeistref Sirol.

Ar ôl trafod **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi'r cynnydd sy wedi'i wneud hyd yma a pharhau i gefnogi gwaith parhaus y prosiect i baratoi cais cam 2 'Parciau i Bobl' ar gyfer Parc Coffa Ynysangharad erbyn mis Awst 2019.
2. Ystyried amserlen y rhaglen a nodi'r cynnydd arfaethedig mewn costau o ganlyniad i'r cynigion dylunio gwell ar gyfer y Ganolfan Hyfforddi Garddwriaethol a chefnogi cynnydd y cais hyd at wneud cais cynllunio.
3. Ail-ystyried cynigion dylunio Cam 3 Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus sy'n cychwyn ar 4 Rhagfyr.

10 **CYFEILLION PARC COFFA YNYSANGHARAD**

Rhoddodd y Swyddog Hamdden, Parciau a Chefn Gwlad drosolwg i Aelodau o'i hadroddiad a oedd yn trafod y rhaglen wirfoddoli lwyddiannus a datblygu grŵp Cyfeillion Parc Coffa Ynysangharad.

Rhoddodd y swyddog fanylion am yr ystod o weithgareddau ymgysylltu sy'n cael eu cynnig er mwyn denu defnyddwyr i'r parc gan roi amser i drafod ac archwilio diddordebau mewn rhaglen wirfoddoli.

Croesawodd yr ymddiriedolwyr aelodau o grŵp Cyfeillion Parc Coffa Ynysangharad i'r cyfarfod a siarodd Cadeirydd y grŵp ar eu rhan, gan roi gwybod am y gwaith sy wedi'i wneud hyd yma, a'r cyfleoedd am gydnerthedd a lles cymunedol y bydd y rhaglen yn eu darparu.

Trafododd Aelodau'r posibilrwydd o rannu arferion da gyda grwpiau eraill ar draws y Fwrdeistref Sirol a soniodd am y gwaith da sy wedi'i wneud gan y grŵp, gan wneud sylwadau ar y prosiect Pabi llwyddiannus diweddar, lle'r oedd y grŵp yn gweithio gydag ysgolion lleol yn yr ardal.

Ar ôl trafod **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi'r cynnydd sy wedi'i wneud gan y gwirfoddolwyr a sefydlu grŵp Cyfeillion Parc Ynysangharad.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.00 pm

**Cllr M Webber
Cadeirydd.**